GIG

Sefydliad Cenedlaethol
dros Ragoriaeth Glinigol

# Mewnblannu sffincter rhefrol artiffisial

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd

Mehefin 2004

**Mewnblannu sffincter rhefrol artiffisial**
**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Mehefin 2004

**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch rif cyfeirnod N0599. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0598. Mae arweiniad ymyriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau hefyd o Linell Ymateb y GIG, rhif cyfeirnod N0597.

## Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-662-3

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol Mehefin 2004
Gosodwyd y Testun gan Icon Design, Eton
Argraffwyd gan Abba Litho Sales Limited, Llundain

© Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Mehefin 2004 . Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r wybodaeth hon | 4 |
| Ynglŷn â mewnblannu sffincter rhefrol artiffisial | 5 |
| Beth y mae NICE wedi'i benderfynu? | 8 |
| Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi | 9 |
| Gwybodaeth bellach | 10 |

# Ynglŷn â’r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddosbarthu i'r GIG ar weithdrefn a elwir yn fewnblannu sffincter rhefrol artiffisial. Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu – dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar p’un a yw mewnblannu sffincter rhefrol artiffisial yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio’n rheolaidd ar gyfer trin achosion difrifol o faeddu.

Er mwyn llunio’r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau ar ddiogelwch mewnblannu sffincter rhefrol artiffisial a pha mor dda y mae’n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy’n cynrychioli gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a’r cleifion a’r gofalwyr y bydd yr arweiniad hwn yn effeithio arnynt.

Mae’r arweiniad hwn yn rhan o’r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar ‘ymyriadau’ (gweler ‘Gwybodaeth bellach’ ar y dudalen olaf).

## Ynglŷn â mewnblannu sffincter rhefrol artiffisial

Baeddu yw'r term meddygol am yr hyn sy'n digwydd pan fydd person yn ysgarthu (carthion) heb y rheolaeth arferol. Gall ddigwydd o ganlyniad i broblemau gyda'r sffincter rhefrol, sef y cylch o gyhyrau sy'n cadw'r rhefr ar gau. Gallai problemau o'r fath ddeillio o niwed i'r sffincter, anaf i'r asgwrn cefn neu anhwylderau niwrolegol eraill.

Mae mewnblannu sffincter rhefrol artiffisial yn cynnwys gosod rhwymyn siâp cylch o dan y croen o amgylch y rhefr. Llenwir y rhwymyn â hylif ac fe'i lleolir yn dynn o amgylch y rhefr, gan ei gadw ar gau. Lleolir tiwb o dan y croen gan redeg o'r rhwymyn i bwmp rheoli. Rhoddir pwmp dyn yn ei geillgwd (ardal y ceilliau). Rhoddir pwmp merch yn yr ardal sy'n agos at ei fagina. Rhoddir balŵn arbennig i mewn i abdomen y claf, a chaiff hwn ei gysylltu â'r pwmp rheoli gan diwbiau sy'n rhedeg o dan y croen.

Pan fydd person yn y toiled, gall weithredu'r pwmp, sy'n cymryd yr hylif o'r rhwymyn ac yn anfon i fyny at y balŵn. Mae'r rhwymyn yn agor a gall y person ysgarthu. Ar ôl gorffen, mae'r hylif yn araf ddychwelyd i'r rhwymyn sy'n tynhau unwaith eto.

# Pa mor dda y mae'n gweithio

## Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Nid oedd unrhyw astudiaethau o safon a oedd yn cymharu yr hyn a oedd yn digwydd i gleifion oedd â sffincter rhefrol artiffisial â'r hyn a oedd yn digwydd i gleifion tebyg nad oedd ganddynt y sffincter artiffisial. Yn yr astudiaethau a ganfuwyd gennym, roedd angen i rai cleifion dynnu'r sffincter artiffisial allan. Mewn un astudiaeth, roedd angen i 10 claf o blith 53 dynnu'r sffincter allan (19% o'r cleifion). Mewn astudiaeth arall, roedd angen i 7 claf o blith 17 ei dynnu allan (41% o gleifion). Yn y cleifion a oedd yn weddill, roedd cael y sffincter wedi gwella eu problemau baeddu, er bod sut y mesurwyd hyn yn wahanol yn yr astudiaethau gwahanol. Yn yr astudiaethau a oedd yn edrych ar y pwysau yn y rhefr, roedd y pwysau yn uwch ar ôl mewnblannu'r sffincter artiffisial (sef yr hyn a ddisgwylid os oedd y sffincter artiffisial yn gweithio).

## Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Credai'r arbenigwyr fwy na thebyg mai gorfod tynnu'r sffincter fyddai'r brif broblem.

# Risgiau a phroblemau posibl

## Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Dangosodd yr astudiaeth fwyaf a ganfu NICE, a edrychodd ar yr hyn a ddigwyddodd i 115 o gleifion, i'r rhan fwyaf o'r cleifion gael problemau gyda'r sffincter artiffisial (cafodd 99 o gleifion o blith 115 broblem). Mae'r rhai mwyaf cyffredin wedi'u rhestru isod ynghyd â nifer y cleifion a gafodd y broblem honno (o blith grŵp o 115):

- haint (38 o gleifion)
- poen (37 o gleifion)
- y ddyfais yn erydu (y rhwymyn fel arfer) (24 o gleifion)
- carthion yn cael eu dal y tu ôl i'r sffincter (21 o gleifion)
- baeddu (21 o gleifion)
- rhwymedd (20 o gleifion)
- anaf yn ystod y weithdrefn (15 o gleifion)
- problemau gyda'r agoriadau a wnaed ar gyfer y rhwymyn, y pwmp, y balŵn neu'r tiwbiau (11 o gleifion)

- anhawster wrth ysgarthu (10 o gleifion)
- safle'r rhwymyn, y pwmp, y balŵn neu'r tiwbiau yn ailagor (10 o gleifion)

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Credai'r arbenigwyr mai'r prif broblemau fyddai heintiau, y ddyfais yn erydu a phroblemau wrth ysgarthu.

## Beth y mae NICE wedi ei benderfynu?

Mae NICE wedi penderfynu, os yw meddyg yn dymuno mewnblannu sffincter rhefrol artiffisial, y dylai sicrhau bod y claf yn deall yr hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu a bod ansicrwydd o hyd ynglŷn â diogelwch y weithdrefn a pha mor dda y mae'n gweithio. Dylid sicrhau bod trefniadau arbennig ar waith fel mai dim ond ar ôl cael y drafodaeth hon y bydd y claf yn cytuno (rhoi caniatâd) i gael y weithdrefn. Mae'n bosibl y bydd NICE yn edrych ar y weithdrefn eto os daw gwybodaeth newydd i'r amlwg.

Mae NICE hefyd wedi argymell mai dim ond mewn unedau sy'n arbenigo ym maes trin cleifion sy'n dioddef o broblemau baeddu y dylid cynnal y weithdrefn.

## Sylwadau eraill gan NICE

Efallai y bydd y weithdrefn yn ddefnyddiol wrth drin cleifion, os yw'r weithdrefn i symbylu'r nerf sacrol yn anaddas (sef ffordd o drin problemau gwlychu a baeddu drwy anfon neges drydanol i'r nerfau sy'n rheoli'r cyhyrau dan sylw). Hefyd, fel gyda phob gweithdrefn, mae'n bwysig bod cleifion yn deall yr hyn y mae'n ei olygu a'r hyn a allai fynd o'i le. Mae problemau yn gymharol gyffredin yn dilyn y weithdrefn hon, ac mae'n bosibl y bydd angen i gleifion gael mwy o lawdriniaethau o ganlyniad.

# Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai fod eich meddyg wedi cynnig mewnblannu sffincter rhefrol artiffisial i chi mewn uned arbenigol. Mae NICE wedi ystyried y weithdrefn hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod ansicrwydd am fanteision a risgiau mewnblannu sffincter rhefrol artiffisial sydd angen i chi eu deall cyn cytuno iddo. Dylai eich meddyg drafod y manteision a'r risgiau hyn gyda chi. Efallai fod rhai o'r manteision a'r risgiau hyn wedi'u disgrifio uchod.

## Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Gallwch ymweld â gwefan NICE (www.nice.org.uk) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn ar fewnblannu sffincter rhefrol artiffisial ar wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG066guidance), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0597. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am broblemau gwlychu a baeddu, mae Galw Iechyd Cymru yn fan cychwyn da, ffoniwch 0845 4647, neu Galw Iechyd Cymru Ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk).

Dyddiad: Mehefin 2004